YSGOL PENRHYN-COCH

Bu diwedd tymor yr haf yn un prysur iawn yn hanes yr ysgol. Cynhaliwyd y Ffair Haf ar nos Wener, Mehefin 10ed a bu'n un hynod o lwyddiannus eleni eto. Yr oedd y stondinau'n llwythog a'r dyrfa niferus yn barod i roi pob cefnogaeth i'r gwerthwyr. Agorwyd y Ffair gan Mr. Richard Jenkins, Cwmbwa, un o gyn-rieni'r ysgol a chefnogwr pybyr i weithgareddau'r ysgol. Cafwyd rhodd hael ganddo i'r gronfa ac fel arwydd o'n gwerthfawrogiad cyflwynwyd anrheg fechan iddo gan Anna Harding. Mynegwyd diolch i bawb gan Mr. William Howells, Is-Gadeirydd y Gymdeithas Rieni Athrawon. Deallir bod elw'r noson yn un sylweddol iawn.

Ar ddechrau Gorffennaf cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol ac wedi prynhawn bywiog o gystadlu brwd rhwng y ddau dîm, Gwylan a Gwennol, gwelwyd mai Gwylan oedd yn fuddugol o drwch blewyn. Cyflwynwyd tarian y Gymdeithas Rieni Athrawon i gapteniaid y tîm buddugol, Lisa Humphreys a Robert Evans gan Mr. William Howells. Enillwyd tarian Dylan a Hywel Griffiths am y nifer mwyaf o bwyntiau gan Cerys Humphreys ac aeth tlws Cyril Evans a'i fab i Frances Robinson. Cafodd capteniaid Gwennol, Frances Robinson ac Alun Price darian yr un hefyd am eu gwaith clodwiw.